FUNDED BY ARIENNIR GAN

COMIC RELIEF

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Cymunedau Cwtsh Comic Relief

Yn cefnogi cymunedau cynnes, diogel a gofalgar.

Diben yr arweiniad hwn yw helpu ymgeiswyr i ddeall mwy am Grant Cymunedau Cwtsh Comic Relief.

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phwy all ymgeisio am gyllid, pa fath o brosiectau y gallwn eu hariannu, a beth sydd ei angen gan ymgeiswyr.

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 3
THEMÂU BLAENORIAETHOL 3
DANGOS EFFAITH AC ADRODD STORÏAU 6
CYMHWYSEDD 6
RHESTR WIRIO CYN YMGEISIO 9
CYLLID CYFATEBOL 10
Y BROSES YMGEISIO A PHENDERFYNU 10
TALU'R GRANT 10
ADRODD AM Y PROSIECT 11
CYMORTH AC ARWEINIAD PELLACH 11

CYFLWYNIAD

Cymunedau Cwtsh: Yn cefnogi cymunedau cynnes, diogel a gofalgar. – Grantiau bach i fudiadau yng Nghymru, wedi'u cyllido gan Comic Relief a'u gweinyddu gan CGGC.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn gweinyddu rhaglen Cymunedau Cwtsh Comic Relief, sy'n cefnogi mudiadau llawr gwlad ledled Cymru i gryfhau eu gwaith a chyflawni newid cymdeithasol positif o fewn eu cymunedau.

Nod y rhaglen yw rhoi'r cyfle i fudiadau cymunedol ystyried yr anghenion brys a strategol i ehangu eu meysydd effaith neu gynyddu eu capasiti ar gyfer darparu gwasanaeth o fewn y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'r cyllid i fudiadau y mae eu cenadaethau yn cyd-fynd â thair thema a amlinellir yn adran 2 yn unig.

Mae Comic Relief yn sylweddoli bod newid parhaol yn dechrau'n aml ar lefel leol. Mae mudiadau cymunedol mewn sefyllfa unigryw i ddeall anghenion y bobl y maen nhw'n eu cefnogi ac i ymateb yn gyflym ac yn dosturiol i'r heriau o fewn eu cymunedau.

Bydd CGGC yn cyflwyno Cymunedau Cwtsh mewn modd sy'n hygyrch i fudiadau ledled Cymru, gan sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd y grwpiau hynny sy'n gweithredu i gefnogi pobl sy'n profi anfantais yn eu hardaloedd lleol. Bydd y penderfyniadau yn cael eu cefnogi'n lleol drwy gael cynrychiolaeth o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) ar baneli asesu.

THEMÂU BLAENORIAETHOL

Trwy **Gymunedau Cwtsh**, ein nod fydd cefnogi mudiadau sy'n mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ddiogelwch, llesiant a gwydnwch cymunedau ledled Cymru. Dylai ymgeiswyr ddangos sut mae eu gwaith yn cyfrannu at un neu ragor o'r themâu canlynol. Rhaid i'ch mudiad eisoes fod yn gweithio mewn un o'r meysydd a ddisgrifir yn y themâu hyn.

1. Anghenion Sylfaenol

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i fudiadau sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd sy'n wynebu pwysau costau byw, tlodi, neu ddiffyg mynediad at nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Gall hyn gynnwys: ·

- Banciau bwyd neu geginau cymunedol sy'n ceisio trechu newyn neu anghydraddoldeb maeth
- Prosiectau sy'n dosbarthu nwyddau hanfodol fel dillad cynnes, cynhyrchion hylendid neu eitemau i'r tŷ
- Hybiau cymunedol sy'n cynnig cymorth argyfwng i bobl sy'n ddigartref, yn cael eu troi allan neu sy'n profi caledi ariannol

2. Iechyd (Datblygiad Plentyndod Cynnar)

Byddwn yn cefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar les a datblygiad plant ifanc a'u teuluoedd, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar.
Gall hyn gynnwys:

- Grwpiau rhieni a phlant bach sy'n cynnig cyfleoedd am chwarae addysgol a chefnogaeth emosiynol
- Sesiynau dysgu cynnar a arweinir gan y gymuned sy'n cefnogi lleferydd, iaith a datblygiad cymdeithasol
- Prosiectau a arweinir gan rieni neu ofalwyr â phrofiad bywyd o anfantais, sy'n creu cyfleoedd i deuluoedd eraill gael cymorth gan gymheiriaid

3. Diogelwch

Bydd y cyllid hefyd yn cynorthwyo mudiadau sy'n gweithio gydag unigolion a chymunedau a effeithiwyd gan drais, dadleoliad neu ymyleiddio. Gall hyn gynnwys:

- Canolfannau menywod sy'n cefnogi'r rheini sydd wedi goresgyn cam-drin domestig drwy gymorth gan gymheiriaid, eiriolaeth a chynlluniau diogelwch
- Grwpiau cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cynnig pecynnau croeso, cymorth iaith, gweithgareddau sy'n ystyriol o drawma ac integreiddio cymunedol
- Mannau diogel i fenywod, pobl LHDTC+ neu grwpiau agored i niwed eraill lle gall unigolion gysylltu, adfer a magu hyder o'r newydd

Pethau i'w hystyried wrth bennu anghenion eich mudiad

Bydd y grant hwn yn cefnogi twf a gwydnwch sefydliadol. Gallai'r canllawiau canlynol eich helpu i ystyried eich cais am grant a sut bydd yn cael ei ddefnyddio i effeithio ar eich mudiad mewn modd sy'n adeiladu gwydnwch.

Mae CGGC yn diffinio 'gwydnwch' fel:

Gallu mudiad i ymateb ac addasu i newid a chynllunio ar gyfer newid, gan ei alluogi i oroesi a ffynnu nawr ac yn y dyfodol.

Mae gwydnwch yn ymwneud â:

- Llamu ymlaen
- Datblygu
- Bod yn hyblyg
- Datblygu cenhadaeth a nodau yng ngŵydd amgylchiadau ac anghenion newidiol

Cwestiynau defnyddiol i'w hystyried wrth gynllunio eich cais am grant:

- Beth sy'n gyrru eich mudiad?
- Beth sydd ei angen arnoch i weithredu'n effeithiol?
- Pwy ydych chi a sut rydych chi'n cyflawni pethau?
- Ydych chi'n gwneud pethau'n dda?
- Sut ydych chi'n ymgysylltu ag eraill ac yn lledaenu ymwybyddiaeth o'ch gwaith?



DANGOS EFFAITH AC ADRODD STORÏAU

Un o'r pethau rydym yn ei ddisgwyl gan y rheini sy'n derbyn grant Cymunedau Cwtsh yw eu bod yn dangos y gwahaniaeth y mae'r cyllid yn ei wneud. Nid yw cofnodi a rhannu effaith eich gwaith yn opsiynol – mae'n ganolog i'r grant ac i gefnogi amcanion ehangach Comic Relief Cymru i adrodd stori, bod yn y cyfryngau a chodi arian.

Bydd gofyn i'r mudiadau a gaiff gyllid fynd ati'n weithredol i gefnogi'r gwaith o adrodd stori ac ymhél â'r cyfryngau. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno storïau neu roi mynediad i staff, cyfranogwyr a buddiolwyr y prosiect fel y gall Comic Relief, y BBC a phartneriaid eraill o'r cyfryngau gasglu storïau cymhellgar go iawn.
- Cynnig cyfleoedd i ffilmio neu gael eu cynnwys gyda thalentau ar sgrin neu bartneriaid yn y cyfryngau.
- Cynnal naratif parhaus gyda'r gallu i ddilyn i fyny ar storïau dros gyfnod o 6-12 mis, gan alluogi partneriaid y cyfryngau, fel y BBC, i ddangos datblygiadau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd Diwrnod Trwyn Coch.

Trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, bydd mudiadau yn helpu i ddangos effaith wirioneddol y cyllid, amlygu gwydnwch a chyflawniadau'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu a chyfrannu'n uniongyrchol at weledd ac ymdrechion codi arian Comic Relief Cymru.

Mae ymrwymiad i'r cyfryngau ac adrodd storïau yn rhan hanfodol felly o gyflawni'r prosiect. Rhaid i ymgeiswyr fod yn hyderus y gallant ymhél yn weithredol yn y gweithgareddau hyn trwy holl oes y prosiect.

CYMHWYSEDD

Mae mudiadau sydd â diben cymdeithasol ac incwm blynyddol o dan £250,000 yn gymwys i ymgeisio.

Trwy gronfa Cymunedau Cwtsh, mae grantiau rhwng **£15,000** a **£35,000** ar gael i fudiadau sy'n ceisio creu cwtshys bach o gymorth o fewn eu cymunedau. Nod y rhaglen yw cryfhau gwaith y mudiadau hynny sy'n ceisio mynd i'r afael ag un neu ragor o'r themâu blaenoriaethol.

Bwriedir i'r cyllid helpu mudiadau i ddyfnhau eu heffaith drwy weithgareddau ymarferol, gwasanaethau uniongyrchol ac ymyriadau go iawn sy'n gwneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau bob dydd pobl.

Gallai'r math o weithgareddau a gyllidir gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Cryfhau neu ehangu gweithgareddau cymunedol sydd eisoes yn rhoi cymorth gwerthfawr i bobl leol
- Gwella darpariaeth gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion sylfaenol, yn cefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar neu'n gwella diogelwch yn y gymuned
- Cynyddu gwydnwch gwasanaethau fel y gallant barhau i ddarparu cymorth dibynadwy o fewn y gymuned

Ffenestr Ymgeisio a Dyddiadau'r Prosiect

- Bydd y ffenestr ymgeisio yn agor: **07 Medi 2027**
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **02 Tachwedd 2026**
- Dyddiad dechrau prosiect cynharaf: **01 Chwefror 2027**
- Dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r prosiect: **Dim hwyrach na 31 Mawrth 2028**

I fod yn gymwys i wneud cais am y grant hwn, rhaid bod eich mudiad eisoes yn gwneud gweithgareddau sy'n cyd-fynd ag o leiaf un o'r tair thema flaenoriaethol a amlinellwyd yn adran 2 ein canllaw. Rhaid i'r gweithgarwch rydych chi'n gwneud cais amdano ddangos yn glir ei fod yn rhan o ddatblygu cenhadaeth eich mudiad. Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fudiadau sy'n gallu dangos yn glir sut y bydd y gweithgarwch y gwnaed cais amdano'n cryfhau neu'n adeiladu ar eu darpariaeth bresennol o dan un o'r tair thema.

Mudiadau Cymwys

- Elusennau cofrestredig
- Grwpiau a chlybiau a gyfansoddwyd
- Cwmnïau nid-er-elw neu gwmnïau buddiant cymunedol - rhaid iddynt gael o leiaf tri Chyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn
- Mentrau cymdeithasol

Ymgeiswyr Anghymwys

Ni allwn dderbyn ceisiadau gan:

- Unigolion
- Unig fasnachwyr
- Cwmnïau sy'n anelu at gynhyrchu elw ar gyfer dosbarthu'n breifat yn bennaf
- Mudiadau y tu allan i Gymru
- Cynghorau Tref, Plwyf a Chymuned
- Ceisiadau a wneir gan un grŵp neu fudiad ar ran un arall

Noder: Rhaid i weithgarwch y prosiect gael ei wneud yng Nghymru a rhaid i fudiadau eisoes fod yn gweithio yng Nghymru.

Gofynion Ymgeiswyr

Rhaid i ymgeiswyr:

- Fod yn grŵp neu'n fudiad a gyfansoddwyd a galluc yflwyno copïau o ddogfennau llywodraethu
- Cael caniatadau tir perthnasol lle y bo'n berthnasol
- Cael cyfrif banc mudiad neu grŵp cymunedol (ni fydd taliadau grant yn cael eu talu i gyfrifon unigolion)
- Dangos trosolwg ac annibyniaeth addas o Fwrdd cymwys â chworwm sydd ag o leiaf tri chyfarwyddwr neu ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn

Beth na fydd y Cynllun yn ei gyllido

Ni fydd y Cynllun yn cyllido:

- Gweithgareddau newydd ar gyfer y mudiad, sy'n dilyn y themâu blaenoriaethol ond lle nad yw gweithgareddau blaenorol wedi cyd-fynd â'r themâu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau nad ydynt yn rhan o genhadaeth y mudiad
- Prosiectau ôl-weithredol
- Prosiectau ar dir neu mewn cyfleuster nad yw'n hygyrch i'r gymuned leol
- Gweithgareddau sy'n cynhyrchu elw na fydd yn cael ei ail-fuddsoddi er

budd y gymuned
- Digwyddiadau neu gynadleddau untro (mae'n bosibl y gellid cynnwys cynadleddau/gweithdai os ydynt yn rhan o brosiect ag effaith barhaol)
- Darpariaeth gwasanaethau y mae'r Llywodraeth neu Fyrddau Iechyd yn gyfrifol amdanynt
- Unrhyw weithgareddau proselyteiddio crefyddol

RHESTR WIRIO CYN YMGEISIO

Cyn ymgeisio i'r gronfa, sicrhewch y gallwch ddarparu'r canlynol gyda'ch cais, gall eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol gynorthwyo a chynghori.

Rhan o rôl rhwydwaith CGGC yw cefnogi'r sector drwy roi cyngor ar arferion llywodraethu da. Os nad oes gennych rai o'r isod, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol (sydd i gyd yn rhan o rwydwaith CGGC i gael cymorth):

- Cyfansoddiad/dogfennau llywodraethu'ch mudiad wedi'u llofnodi – rhaid i ddogfennau llywodraethu'r mudiad amlinellu diben cymdeithasol y mudiad yn glir, dangos bod unrhyw elw neu asedau yn cael eu defnyddio at y diben cymdeithasol hwn, a dangos bod clo asedau yn ei le, pan fo'n berthnasol.
- Y caniatâd perthnasol i gynnal y gweithgaredd
- Copïau wedi'u llofnodi o ddatganiadau ariannol diweddaraf eich mudiad neu'r cyfrifon blynyddol a archwiliwyd ddiwethaf
- Cyfriflen Banc
- Copi o Bolisi Amgylcheddol eich mudiad
- Copi o Bolisi Cyfle Cyfartal eich mudiad
- Copi o Bolisi Iaith Gymraeg eich mudiad
- Copi o Bolisi Diogelu'ch mudiad
- Tystiolaeth/llythyrau o gefnogaeth y gymuned dros y prosiect (dim mwy na 5)
- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol – os bydd eich prosiect yn defnyddio cyllid o fwy nag un ffynhonnell, bydd angen i ymgeiswyr roi gwybod ffynhonnell y cyllid cyfatebol i ni a darparu tystiolaeth ei fod wedi'i sicrhau. Os ydych wrthi'n ymgeisio am gyllid arall, rhowch wybod i ni ym mha gam yn y broses yr ydych.

CYLLID CYFATEBOL

Nid oes angen cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun a gall y cynllun gefnogi 100% o gostau prosiect. Er nad yw cyllid cyfatebol yn ofyniad penodol yn y cynllun, gellir ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau ehangach ar y cyd â ffynonellau eraill o gyllid.

Gellir cynnwys cyllid cyfatebol mewn nwyddau yng nghyllideb eich prosiect, er enghraifft, darparu gweithiau, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau a roddir i'r prosiect gan ddarparwr arall.

Dylid hefyd gynnwys oriau gwirfoddolwyr ym mhroffil cyllideb y prosiect. Mae'r cyfraddau gwirfoddoli tybiannol ar gyfer gwahanol rolau mewn prosiect yn cael eu cymryd o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Gosodir yr isafswm cyfradd wirfoddoli yn unol â chyfradd y cyflog byw. Rydym yn awyddus i gofnodi'r gwerth a gyfrannir at brosiectau gan wirfoddolwyr ac felly'n gofyn i chi eu cynnwys ym mhroffil eich prosiect

Y BROSES YMGEISIO A PHENDERFYNU

I wneud cais am Grant Cymunedau Cwtsh Comic Relief, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ceisiadau Amiddefnydd CGGC (MAP). Os ydych wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi trwy roi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar y sgrin gartref.

Gall mudiadau gofrestru drwy fynd i'r wefan https://map.wcva.cymru
Os oes angen help arnoch i gofrestru ar MAP dilynwch y fideo hwn.

Rhaid cyflwyno ceisiadau yn unol â'r dyddiad cau a gyhoeddir. Nid ystyrir ceisiadau a geir ar ôl y dyddiad cau.

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu a'u cyflwyno gerbron panel cynghori i'w cymeradwyo neu eu gwrthod

TALU'R GRANT

Bydd grantiau'n cael eu talu i gyfrif banc eich mudiad neu'ch grŵp. Dylid rhoi manylion banc ar eich ffurflen gais. Rhaid i'r cyfrif fod ag o leiaf ddau

lofnodydd awdurdodedig nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, bydd angen enwi'r bobl hyn ar eich ffurflen gais a nodi eu cyfeiriadau ebost.

ADRODD AM Y PROSIECT

Beth y gofynnir i mi ei fesur?

- Pa effaith bositif y bydd y prosiect yn ei chael?
- Sut mae hyn yn cyd-fynd â'ch dewis thema?
- Sut fydd yr effaith yn cael ei mesur? A fydd modd i chi sefydlu llinell sylfaen a mesur y gwelliant ar ôl cynnal y prosiect?
- Pa mor barhaol fydd effaith y prosiect? Er enghraifft, a fydd y gweithgarwch yn parhau, a fydd yn meithrin sgiliau neu adnoddau yn y gymuned?

Bydd angen i brosiectau llwyddiannus gyflwyno adroddiad monitor ar gyfnodau 6 mis trwy gydol y broses o gyflawni'r prosiect. Bydd hefyd angen astudiaethau achos gan eich prosiect.

Comic Relief – Diwrnod Trwynau Coch

Er mwyn dangos y gwahaniaeth y mae cyllid Comic Relief yn ei wneud i fudiadau sy'n cael y grant hwn; bydd dangos yr effaith sydd wedi bod yn bosibl drwy Comic Relief yn rhan hanfodol o gyflawni'r prosiect.

Pam mae angen y wybodaeth hon?

Bydd casglu'r wybodaeth hon gan y rheini sy'n cael grant yn ein helpu i ddangos y gwahaniaeth cyfunol y mae'r cyllid yn ei wneud yn y cymunedau lle cynhelir y gweithgarwch.

CYMORTH AC ARWEINIAD PELLACH

Os gwelwch yn dda cysylltwch â Thîm Grantiau WCVA ar y manylion cyswllt isod:

- Ebost: comicreliefgrants@wcva.cymru
- Ffôn - 0300 111 0124
- Gwefan - WCVA

Gael mwy o gymorth, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.